**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 12 Tachwedd, 2018**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 15 Tachwedd, 2018. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 22 Tachwedd, 2018. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 23 Tachwedd, 2018.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, R. Meirion Jones, R G Parry OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams (Cadeirydd), Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Aled Morris Jones, Bryan Owen, Shaun Redmond, Dylan Rees

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Llinos Medi Huws

(10:00 y. b. hyd at 11.25 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 15 a 22 Hydref, 2018 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cynllun Ymgynghori Cyllideb 2019/20**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid Corfforaethol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo Cynllun Ymgynghori Cyllideb 2019/20 i'w wireddu yn ystod y cyfnod 12 Tachwedd hyd at 31 Rhagfyr, 2018.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Caniatáu ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion cychwynnol Cyllideb 2019/20** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Premiymau'r Dreth Gyngor - Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Tymor Hir (Adolygiad o'r Flwyddyn Gyntaf)**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>**• Nodi cynnwys yr adroddiad sy'n adolygu blwyddyn gyntaf premiwm y Dreth Gyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18 a hyd yn hyn am 2018/19.**<br>**• Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ynglŷn â chodi Premiwm y Dreth Gyngor i 100% ar eiddo gwag tymor hir ac i 35% ar ail gartrefi. Gwneir hyn fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion Cyllideb 2019/20.**<br>**• Argymell y dylai £170k ychwanegol y flwyddyn y bydd y premiwm yn ei greu gael ei neilltuo am y ddwy flynedd nesaf (cyfanswm o £340k) i'r cynlluniau a fwriadwyd i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf er mwyn cynyddu nifer yr ymgeiswyr y gellir eu cynorthwyo.**<br>**• Bod y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i amlygu'r angen i gael gwared â'r anghysondeb cyfreithiol lle mae modd trosglwyddo ail gartrefi yn y system Dreth Gyngor i drethi busnes.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gwneud argymhellion ar bolisi Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd y penderfyniad ar Bremiwm y Dreth Gyngor yn cael ei wneud gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Cyllideb Refeniw Ddrafft 2019/20**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Peidio â dyrannu'r ddau grant sydd wedi eu hymgorffori yn y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) i gyllidebau'r gwasanaethau perthnasol oherwydd caniatawyd ar gyfer hynny yn y gyllideb ddigyfnewid.**<br>• **Cymeradwyo cyllideb ddigyfnewid o £137.402m ar gyfer 2019/20 ac y dylai hyn fod yn sail ar gyfer cyllideb refeniw 2019/20.**<br>• **Bod y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu ar y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20 a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.**<br>• **Ar ôl caniatáu ar gyfer y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor, dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio gwneud digon o arbedion yn 2019/20 i gydbwyso'r gyllideb refeniw heb orfod defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac er mwyn sicrhau bod yr arbedion y mae angen eu gwneud yn 2019/20 yn gyraeddadwy.**<br>• **Bod y Pwyllgor Gwaith yn ceisio barn y cyhoedd ar yr arbedion arfaethedig.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo rhagdybiaethau'r gyllideb fel sail ar gyfer Cyllideb Refeniw 2019/20** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd y Cyngor Llawn yn penderfynu ar y Gyllideb Refeniw ar 27 Chwefror 2019.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Cyllideb Cyfalaf 2019/20**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br><br>• **Argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol ar gyfer 2019/20 i'r Cyngor llawn:-**<br><br>**£'m**<br><br>**Cynlluniau Ymrwymedig a Ddygwyd** |

| | |
|---|---|
| | **Ymlaen o 2018/19 13.429**<br><br>**Buddsoddi mewn Asedau presennol 2.539**<br>**Ail-wynebu Priffyrdd 1.359**<br>**Ysgolion yr 21ain Ganrif <u>7.563</u>**<br>**Cyfanswm Cynlluniau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol 24.890**<br><br>**Cynlluniau Cyfalaf CRT <u>13.110</u>**<br><br>**<u>Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2019/20</u> <u>38,000</u>**<br><br>**Cyllidir drwy:-**<br><br>**Gyllid a ddygwyd ymlaen o 2018/19 1.099**<br>**Grant Cyfalaf Cyffredinol 1.327**<br>**Benthyca â Chefnogaeth 2.026**<br>**Benthyca Di-gefnogaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif 1.847**<br>**Benthyca â Chefnogaeth– Ysgolion yr 21ain Ganrif 1.943**<br>**Grantiau Allanol 18.728**<br>**Grant Atgyweirio Priffyrdd 0.580**<br>**Benthyca Di-gefnogaeth CRT 1.000**<br>**Cyllid CRT <u>9.450</u>**<br><br>**<u>Cyfanswm Cyllid</u> <u>38.000</u>**<br><br>• **Bod £1.510m o gyllid heb ei ddefnyddio ar gyfer Gofal Ychwanegol Seiriol a Safleoedd Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei ryddhau yn ôl i'r Gronfa Gyfalaf Gyffredinol i gyllido'r canlynol –**<br><br>    • **Elfen y Cyngor o'r cyllid ar gyfer y 10 bid cyfalaf newydd a nodir ym mharagraff 3.3 yr adroddiad (£797k)**<br><br>    • **Prosiectau Buddsoddi i** |

| | |
|---|---|
| | **Arbed:- Effeithiolrwydd Ynni mewn Adeiladau Corfforaethol (£250k) a phrynu Cerbydau LPG a Thrydan newydd (£150k)**<br><br>• **Cadarnhau bod y grant ychwanegol ar gyfer ail-wynebu Priffyrdd (£580k) yn ychwanegol i'r isafswm buddsoddiad cyfalaf (£779k)** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Argymell Cyllideb Gyfalaf ar gyfer 2019/20 i'r Cyngor Llawn.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd y Cyngor Llawn yn penderfynu ar y Gyllideb Gyfalaf ar 27 Chwefror 2019.** |